Cyllid & Tollau EM

# Nodiadau ar lenwi ffurflen VAT1C

## Datganiad

### Y rhinwedd yr ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ynddi

Dim ond y person a nodir isod a ddylai lofnodi'r datganiad a thicio'r blwch priodol.

**Ar gyfer unig fasnachwyr**
Yr unig berchennog, fel arfer hwn yw'r perchennog.

**Ar gyfer partneriaethau**
Un o'r partneriaid. Cofiwch – dylid rhoi llofnod yr holl bartneriaid hefyd ar ffurflen VAT2 - dylid ei llenwi a'i hanfon ynghyd â'r cais. Os yw partner yn gorff corfforaethol, yna mae angen enw a llofnod 'person naturiol' arnom sydd â rheolaeth effeithiol.

**Ar gyfer cyrff corfforaethol**
Cyfarwyddwr neu ysgrifennydd y cwmni, neu lofnodwr awdurdodedig.

**Ar gyfer cyrff anghorfforedig**
Swyddog sy'n gwneud cais ar ran corff anghorfforedig, er enghraifft ysgrifennydd, neu ymddiriedolwr.

**Asiant awdurdodedig**
Unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan yr ymgeisydd sy'n cael ei gofrestru i weithredu ar ei ran.

## Manylion yr ymgeisydd

Nodwch eich enw llawn

| Os ydych yn un o'r canlynol | Nodwch |
|---|---|
| Unig berchennog | Eich enw chi |
| Partneriaeth, partneriaeth gyfyngedig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | Enw'r busnes. Os nad oes enw busnes, rhowch wybod i ni enwau'r partneriaid i gyd |
| Corff corfforaethol | Enw'r cwmni |
| Corff anghorfforedig | Enw eich clwb, cymdeithas neu sefydliad |

### Rhif Yswiriant Gwladol

Gallwch ddod o hyd i rif Yswiriant Gwladol ar eich cerdyn Yswiriant Gwladol, llythyr budd-daliadau, slip cyflog neu P60. Er enghraifft, QQ123456C.

### Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr ar gyfer Hunanasesiad

Rhif 10 digid yw hwn, er enghraifft 1234567890. Bydd i'w weld ar Ffurflenni Treth a llythyrau eraill ynghylch Hunanasesiad. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel 'cyfeirnod', 'UTR' neu 'defnydd swyddogol'.

### Rhif Cofrestru'r Cwmni

Bydd Rhif Cofrestru Cwmni os ydych wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Mae hwn yn naill ai rhif 8 digid neu'n 2 lythyren wedi'u dilyn gan rif 6 digid. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel 'Rhif Cofrestru Tŷ'r Cwmnïau', 'CRN' neu 'rhif cwmni'.

### Os nad ydych yn fusnes yn y DU neu'n fusnes sydd heb ei sefydlu yn y DU

Rhowch y cyfeirnod cyfatebol ar gyfer eich math o fusnes o'r wlad lle mae'ch busnes wedi'i gofrestru.

## Cyflenwadau trethadwy

### A ydych wedi gwneud unrhyw gyflenwadau trethadwy perthnasol eto?

Os ydych eisoes wedi gwneud cyflenwad trethadwy perthnasol, atebwch 'Ydw' a rhowch y dyddiad y gwnaethoch y cyflenwad cyntaf.
Os nad ydych wedi gwneud cyflenwad perthnasol eto, atebwch 'Nac ydw' a nodwch y dyddiad yr ydych yn disgwyl gwneud y cyflenwad.

### Pryd oedd y tro cyntaf i fod â sail resymol dros gredu eich bod yn mynd i wneud cyflenwadau trethadwy perthnasol?

Rhowch y dyddiad yr oedd gennych, am y tro cyntaf, sail resymol dros ragweld eich bod yn mynd i wneud cyflenwadau trethadwy perthnasol. Mae'n rhaid i chi ateb y cwestiwn hwn, hyd yn oed os ydych eisoes wedi gwneud cyflenwadau perthnasol.

### Gwerth y cyflenwadau trethadwy perthnasol rydych yn disgwyl eu gwneud yn ystod y 12 mis nesaf

Rhowch gyfanswm gwerth blynyddol disgwyliedig y cyflenwadau perthnasol rydych yn disgwyl eu gwneud yn y DU. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gyflenwadau trethadwy eraill rydych yn disgwyl eu gwneud rywle arall.

### A ydych yn gwneud unrhyw gyflenwadau trethadwy eraill yn y DU?

Ticiwch 'Ydw' os ydych yn gwneud cyflenwadau trethadwy eraill yn y DU yn ogystal â chyflenwadau trethadwy perthnasol, a rhowch amcangyfrif o werth y cyflenwadau hyn. Peidiwch â chynnwys gwerth cyflenwadau trethadwy perthnasol yn yr amcangyfrif hwn. Ticiwch 'Nac ydw' os nad ydych yn gwneud unrhyw gyflenwadau trethadwy eraill yn y DU.

## Trosglwyddo asedion

### A ydych yn cofrestru oherwydd bod TAW wedi'i hadennill gan ragflaenydd?

Ticiwch 'Ydw' os ydych wedi cyflenwi nwyddau, neu'n bwriadu cyflenwi nwyddau, sydd wedi'u trosglwyddo i chi ac y mae TAW wedi'i hadennill arnynt o dan drefniadau ad-dalu naill ai Cyfarwyddeb TAW 2008/9 neu'r 13eg Cyfarwyddeb. Os gwnaethoch dicio 'Ydw', rhowch enw a chyfeiriad llawn y person neu'r bobl a wnaeth adennill TAW yn flaenorol ar y nwyddau sydd wedi'u trosglwyddo i chi. Os nad yw TAW wedi'i hadennill gan ragflaenydd, ticiwch 'Nac ydw'.

## Ble i anfon y ffurflen hon

Atodwch y ffurflen hon i'r VAT1 ac anfonwch y cais wedi'i chwblhau at:

BT VAT
Cyllid a Thollau EM / HM Revenue and Customs
BX9 1WR

Ffôn: 0300 200 3705
Mae rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwyno i'w chael yn www.gov.uk/cwyno-am-cthem